


Canllawiau Cofrestru Addasedig i ymgeiswyr a darparwyr mewn ymateb i COVID-19

Ebrill 2020



Cynnwys

1. Blaenoriaethu a'n dull gweithredu
 2. Prosesau addasedig
- Atodiad 1. Hunanardystio Geirdaon Meddygol
- Atodiad 2. Hunanndatganiad o Anghymhwysu
- Atodiad 3. Yr angen i ystyried cyfweliad
- Atodiad 4. Matrics Penderfynu o ran Ymweliadau Safle
- Atodiad 5. Rhestr wirio Cyn Ymweliad Safle Rhithwir

1. Blaenoriaethu a'n dull gweithredu

Blaenoriaethu

Rydym yn cydnabod y bydd angen cynyddu capasiti yn y sector gofal cymdeithasol a'r sector gofal plant a chwarae mewn ymateb i argyfwng COVID-19. Er ein bod wedi gohirio ein trefn arolygu arferol, byddwn yn blaenoriaethu gwaith cofrestru ac amrywio ac yn dargyfeirio adnoddau ychwanegol iddo. Bydd y timau cofrestru yn blaenoriaethu meysydd gwaith yn y drefn a amlinellir isod:

1. Yr holl waith cofrestru ac amrywio sy'n cefnogi darparwyr i ddarparu gwasanaethau o ganlyniad i COVID-19.
2. Yr holl waith cofrestru ac amrywio a fydd yn dod â chapasiti ychwanegol i'r sector.
3. Cofrestru gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestriad.
4. Cofrestriadau neu amrywiadau risg uchel, er enghraifft, yn ymwneud â phrynu gwasanaethau sydd yn nwylo gweinyddwyr.
5. Yr holl waith cofrestru ac amrywio arall.

Amrywiadau i gynyddu'r uchafswm niferoedd

Caiff pob cais i gynyddu uchafswm niferoedd ei flaenoriaethu ar y sail ei fod yn cyflwyno capasiti ychwanegol yn y sector.

Bydd y ffordd rydym yn ymdrin â'r gwaith hwn yn amrywio, yn dibynnu ar b'un a oes bwriad i gynyddu'r uchafswm niferoedd yn barhaol neu mewn ymateb i COVID-19 yn unig. Os na nodir hyn yn benodol yn y cais, byddwn yn cysylltu â'r darparwr i gadarnhau natur y cais.

Bydd ceisiadau i gynyddu uchafswm niferoedd yn barhaol yn destun ein prosesau a'n gofynion rheoleiddiol arferol.

Byddwn yn anelu at brosesu ceisiadau COVID-19 o fewn dau ddiwrnod gwaith i'w derbyn.

Caiff amod ei osod ar y cofrestriad i adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi cynyddu'r uchafswm nifer.

"Mewn ymateb i argyfwng COVID-19, gellir lletya X o bobl ychwanegol yn y gwasanaeth hwn."

2. Prosesau Addasedig

Ym mhob achos, byddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr i ofyn am ganiatâd i gohebu â nhw yn electronig.

Tystiolaeth ddogfennol

- Bydd ceisiadau gofal plant a chwarae a gyflwynir drwy AGC Ar-lein yn cynnwys yr holl dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol. Caiff unrhyw ddiwygiadau eu cyflwyno drwy e-bost.
- Ar gyfer ceisiadau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a cheisiadau gofal plant a chwarae a gyflwynir ar ffurf papur, gall tystiolaeth ddogfennol angenrheidiol (gan gynnwys diwygiadau) gael ei chyflwyno drwy e-bost (ac eithrio dogfennau adnabod neu dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).

Os yw'r ymgeisydd neu'r gwasanaeth eisoes wedi'i gofrestru ag AGC, byddwn yn gweithredu mewn ffordd gymesur mewn perthynas â'r dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen arnom.

Geirdaon

Byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i gael geirdaon, ond rydym yn derbyn y gall hyn fod yn heriol yn ymarferol. Os na allwn gael geirdaon drwy e-bost, byddwn yn ceisio cysylltu â chanolwyr dros y ffôn. Ni fydd ein hanallu i gael geirdaon yn ein hatal rhag cwblhau ein gwaith cofrestru.

Geirdaon meddygol

Anogir ymgeiswyr ac Unigolion Cyfrifol i hunanardystio, oherwydd y baich ychwanegol sydd ar y GIG ar hyn o bryd.

Atodiad. 1.

Gwiriadau gwasanaethau cymdeithasol

Er mwyn cydnabod yr her a wynebir gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol, lle nad ydym wedi cael ymateb i gais am wiriad gan y gwasanaethau cymdeithasol o fewn 3 wythnos, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gofal plant a chwarae gyflwyno hunanddatganiad mewn perthynas ag unrhyw gollfarnau sy'n anghymhwysu neu orchmynion Lllys.

Atodiad. 2.

Gwiriadau a thystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Byddwn yn defnyddio adnoddau rhithwir at ddibenion adnabod a thystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cyfweliadau

Caiff cyfweliadau ag ymgeiswyr ac Unigolion Cyfrifol eu cynnal o bell, dros y ffôn, neu drwy ddefnyddio adnoddau rhithwir.

Byddwn yn gweithredu mewn ffordd gymesur o ran yr angen i gyfweld ag ymgeiswyr ac Unigolion Cyfrifol.

Mae **Atodiad 3** yn nodi'r ffactorau rydym yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cyfweld ag ymgeisydd neu Unigolyn Cyfrifol.

Ymweliadau safle

Dim ond mewn perthynas â Gwasanaethau Cartrefi Gofal gwag y caiff ymweliadau safle eu cynnal. Dylid cynnal ymweliadau pan fydd safle yn wag neu pan fydd y gwasanaeth wedi cau.

Ni ddylai neb heblaw'r unigolion allweddol fod yn bresennol, er enghraifft ymgeiswyr ac Unigolion Cyfrifol.

Wrth drefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb megis ymweliadau safle (neu os ydynt eisoes wedi'u trefnu, cyn cynnal ymweliadau safle) cysylltwch â'r person y byddwch yn ei gyfarfod a gofyn am gadarnhad nad yw wedi dychwelyd o wlad risg uchel (fel y'i diffiniwyd yng nghanllawiau'r GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn ystod y 14 diwrnod diwethaf. Mae'r rhestr ar gael yn y [canllawiau ar y coronafeirws \(COVID-19\)](#).

Os yw'r person eisoes mewn cwarantyn neu'n hunanynysu neu os oes ganddo unrhyw rai o symptomau COVID-19, dylid aildrefnu'r ymweliad.

Dim ond er mwyn gweld y safle y caiff yr ymweliad ei drefnu.

Ar gyfer pob math arall o ymweliad safle, byddwn yn cynnal Ymweliadau Safle Rhithwir.

Mae **Atodiad 4** yn nodi'r dull o gynnal ymweliad safle i'w ddefnyddio ac unrhyw ystyriaethau ychwanegol.

Cyn yr ymweliad rhithwir

Cyn cynnal yr ymweliad rhithwir, byddwn yn cytuno ar yr adnodd rhithwir i'w ddefnyddio â'r ymgeisydd/darparwr.

Caiff y **rhestr wirio ar gyfer ymweliad safle rhithwir** yn **Atodiad 5** ei hanfon at yr ymgeisydd/darparwr dros e-bost cyn yr ymweliad, gan roi digon o amser i'w chwblhau a'i dychwelyd. Bydd angen i'r ymgeisydd/darparwr gwblhau cymaint o wybodaeth â phosibl am y safle y mae'n bwriadu ei ddefnyddio.

Os bydd preswylwyr ar y safle, byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd/darparwr hysbysu unrhyw unigolion sy'n bresennol yn y gwasanaeth y bydd ymweliad rhithwir yn cael ei gynnal ac nad yw'r ymweliad yn cael ei recordio ar fideo.

Yn ystod yr Ymweliad Rhithwir

Yn ystod yr ymweliad rhithwir, byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd/darparwr ddangos pob rhan o'r safle i'r arolygydd, gan gynnwys unrhyw ardaloedd awyr agored y mae'n bwriadu eu defnyddio. Ar gyfer gwarchodwyr plant, bydd hyn yn cynnwys pob rhan o'r cartref.

Os bydd y golau neu'r ongl yn ei gwneud hi'n anodd gweld ardaloedd penodol, byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd/darparwr dynnu ffotograff (ar adeg wahanol o'r dydd o bosibl) o'r ardal hon a'i e-bostio atom yn ciwregistration@gov.wales.

Gall unrhyw ddogfennaeth adnabod neu ddogfennaeth gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael ei gweld yn ystod yr ymweliad rhithwir, os nad yw hynny wedi'i wneud eisoes.

Ar ôl yr Ymweliad Rhithwir

Bydd yr arolygydd yn cofnodi bod ymweliad rhithwir wedi'i gynnal ac yn nodi unrhyw feysydd y bydd angen eu codi eto mewn arolygiad yn y dyfodol.

Adnoddau Rhithwir

Mae'r adnoddau canlynol ar gael:

- Skype
- Microsoft Teams
- Zoom
- Google Meet
- WebEx

Atodiad 1. Hunanardystio Geirdaon Meddygol

Hunanddatganiad meddygol mewn perthynas â pherson sy'n gwneud cais i fod yn Berson Cofrestredig neu



Enw:	
Cyfeiriad a chod post	
Dyddiad geni:	
Rhif ffôn:	
E-bost:	
Rôl:	

Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw amgylchiadau mewn perthynas â'ch iechyd neu a oes gennych anaf neu gyflwr sy'n bodoli eisoes a fyddai'n amharu ar eich gallu i gyflawni dyletswyddau'r rôl?

✓ X

Os, felly, rhowch fanylion isod –

--

Llofnod:	
----------	--

Dyddiad:	
----------	--

Atodiad 2. Hunanddatganiad o Anghymhwysu

Hunan-ddatganiad Anghymhwysu

Atebwch y cwestiynau canlynol. Byddwch yn ymwybodol bod methu â datgelu mater a fyddai'n eich anghymhwysu rhag cofrestru yn drosedd, ac y gallai hefyd effeithio ar eich gallu i dderbyn eithriad. Mae Atodiad 8 yn ein Canllawiau Cofrestru yn rhoi mwy o wybodaeth am Anghymhwysu.

Ydych chi neu unrhyw berson sy'n byw neu'n gweithio yn eich cartref erioed wedi:	
Cael gwrthod cofrestru yn y DU nac yn Ynys Manaw mewn perthynas â chartref plant neu gartref gwirfoddol?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Cael canslo cofrestriad yn y DU neu yn Ynys Manaw mewn perthynas â chartref plant neu gartref gwirfoddol?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Wedi bod yn ymwneud â rheoli, neu fod ag unrhyw ddiddordeb ariannol mewn cartref plant neu gartref gwirfoddol, ble bu i gofrestriad rhywun arall gael ei ganslo yn y DU neu yn Ynys Manaw?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Wedi cael gwrthod cofrestriad mewn cysylltiad â darpariaeth meithrinfeydd, gofal dydd, gwarchod plant neu ddarpariaeth gofal dydd arall yn y DU, Guernsey neu Ynys Manaw?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Wedi cael ei anghymhwysu rhag cofrestru mewn cysylltiad â darpariaeth meithrinfeydd, gofal dydd, gwarchod plant neu ddarpariaeth gofal dydd arall yn y DU, Guernsey neu Ynys Manaw?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Wedi cael canslo cofrestriad mewn perthynas â darpariaeth meithrinfeydd, gofal dydd, gwarchod plant neu ddarpariaeth gofal dydd arall yn y DU, Guernsey neu Ynys Manaw?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Wedi bod yn destun gorchymyn gofal neu oruchwyliaeth?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>

A wnaed gorchymyn gofal neu oruchwyliaeth ynglŷn â phlentyn yn eu gofal?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Wedi cael ei anghymwyso rhag maethu plentyn yn breifat o dan Rheoliadau Anghymwyso Rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred a ydych chi'n gwybod am unrhyw reswm pam y gallwch chi neu unrhyw berson 16 oed neu drosodd sy'n byw a/neu'n gweithio a/neu sydd fel arall yn bresennol yn eich cartref fod yn anghymwys i gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd dan Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwys) (Cymru) 2010?	Do <input type="checkbox"/> Naddo <input type="checkbox"/>
Rwy'n cadarnhau y bydd y darparwr gwasanaeth yn gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw yn unol â'r Rheoliadau perthnasol.	Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/>
Cadarnhaf y byddaf yn gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw yn unol â'r Rheoliadau perthnasol.	Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/>

Tystiaf fod y wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Deallaf fod gwneud datganiad yn fwriadol sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn cais i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn drosedd ac y gallai arwain at gymryd camau gorfodi.

Arwyddwyd

Dyddiad.....

Atodiad 3. Matrics Penderfynu o ran Ymweliadau Safle

Gwasanaethau Cartrefi Gofal

Y math o gais	A oes angen cynnal ymweliad?	Sut y gellir lliniaru'r angen am ymweliad?
Cais cychwynnol i gofrestru llety yn seiliedig ar wasanaeth nad yw wedi'i gofrestru ag AGC	Oes	
Cais cychwynnol i gofrestru gwasanaeth sydd eisoes wedi'i gofrestru ag AGC, er enghraifft newid endid cyfreithiol	Nac oes	Trafodaeth â'r arolygydd ardal, hanes cydymffurfiaeth, cadarnhad gan y darparwr presennol o unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ers y cofrestrriad gwreiddiol
Cynyddu uchafswm nifer y bobl y gofelir amdanynt	Nac oes Nac oes Nac oes	Datganiad o Ddiben wedi'i ddiweddarau, gan gynnwys gwybodaeth am drefniadau staffio. Gwybodaeth ysgrifenedig am gydymffurfiaeth â'r Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol.
Unrhyw gais mewn perthynas â gwasanaethau nad ydynt yn cynnig llety	Nac oes	
Darparwr Gwasanaeth Cofrestredig sy'n caffael gwasanaeth cofrestredig: <ul style="list-style-type: none"> Arolygiad wedi'i gynnal yn ystod y 12 mis blaenorol cyn cyflwyno'r cais ac nid oes unrhyw faterion wedi codi o ran diffyg cydymffurfiaeth na phryderon ynglŷn â'r amgylchedd. Mae'r holl ddogfennaeth a gyflwynir yn foddhaol Materion wedi codi o ran diffyg cydymffurfiaeth o ran yr amgylchedd a/neu bryderon ynglŷn â'r amgylchedd a/neu mae'r 	Nac oes Annhebygol	Adroddiad arolygu diweddaraf. Trafodaeth â'r arolygydd ardal. Hanes o wasanaethau ychwanegol y mae'r darparwr yn eu rhedeg o bosibl. Cadarnhad gan y darparwr presennol o unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ers y cofrestrriad gwreiddiol. Adborth gan yr arolygydd ardal mewn perthynas â'r canlynol: materion o ran cydymffurfiaeth amgylcheddol, camau a gymerwyd, canlyniad y

<p>darparwr presennol yn cadarnhau bod newidiadau wedi cael eu gwneud ers y cofrestriad cychwynnol a/neu mae dogfennaeth yn codi pryderon a/neu bryderon ar ôl trafodaeth â'r Unigolyn Cyfrifol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu'r niferoedd ers cofrestriad presennol y Darparwr Gwasanaeth 	<p>Nac oes</p>	<p>pryderon a godwyd ynglŷn â'r amgylchedd a dyddiad yr arolygiad nesaf.</p> <p>Cynlluniau llawr, mesuriadau, yr adroddiad arolygu diweddaraf, trafodaeth â'r arolygydd ardal. Gwybodaeth ysgrifenedig am y cyfleusterau, os oes ymholiadau.</p>
--	----------------	--

Gwarchodwyr plant

Y math o gais	A oes angen ymweliad personol?	Sut y gellir lliniaru'r angen am ymweliad?
Cais cychwynnol i gofrestru – nid yw'r gwasanaeth yn hysbys i AGC	Nac oes	Ymweliad safle rhithwir
Cais cychwynnol i gofrestru – i weithio gyda gwarchodwr plant arall sydd eisoes wedi'i gofrestru yng nghyfeiriad y gwarchodwr plant cofrestredig	Nac oes	Cynlluniau llawr â mesuriadau, yr adroddiad arolygu diweddaraf, hanes cydymffurfiaeth, cadarnhad gan y darparwr presennol o unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ers y cofrestriad gwreiddiol, trafodaeth â'r arolygydd ardal
Symud tŷ	Nac oes	Ymweliad safle rhithwir
Cynyddu uchafswm nifer y plant y gofelir amdanynt	Nac oes	Cynlluniau llawr â mesuriadau, adroddiad arolygu diweddaraf, ffotograffau o'r safle, trafodaeth â'r arolygydd ardal, gwybodaeth ysgrifenedig am y cyfleusterau, os oes angen
Cais i amrywio neu ddileu amod ychwanegol (amodau anghyffredin) sydd wedi cael ei osod oherwydd materion amgylcheddol	Nac oes	Trafodaeth â'r arolygydd ardal am y materion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth, camau a gymerwyd gan y darparwr i gydymffurfio, yr adroddiad arolygu diweddaraf

Gwasanaeth Gofal Dydd

Y math o gais	A oes angen ymweliad personol?	Sut y gellir lliniaru'r angen am ymweliad?
Cais cychwynnol i gofrestru – nid yw'r gwasanaeth yn hysbys i AGC	Nac oes	Ymweliad safle rhithwir
Cais cychwynnol i gofrestru safle/gwasanaeth sydd eisoes wedi'i gofrestru ag AGC, er enghraifft newid endid cyfreithiol	Nac oes	Trafodaeth â'r arolygydd ardal, hanes cydymffurfiaeth, cadarnhad gan y darparwr presennol o unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ers y cofrestriad gwreiddiol
Newid lleoliad, e.e. yr un cyfeiriad ond ystafell wahanol/caban gwahanol nad yw'n hysbys i AGC	Nac oes	Cynlluniau llawr â mesuriadau, ffotograffau, asesiadau risg, gweithdrefn gwagio'r adeilad os bydd tân, gwybodaeth ysgrifenedig am y cyfleusterau os oes angen
Cynyddu uchafswm nifer y plant y gofelir amdanynt	Nac oes	Cynlluniau llawr â mesuriadau, ffotograffau, yr adroddiad arolygu diweddaraf, trafodaeth â'r arolygydd ardal, gwybodaeth ysgrifenedig am y cyfleusterau os oes angen
Person Cofrestredig neu Unigolyn Cyfrifol newydd	Nac oes	
Cais i amrywio neu ddileu amod ychwanegol (amodau anghyffredin) sydd wedi cael ei osod oherwydd materion amgylcheddol	Nac oes	Trafodaeth â'r arolygydd ardal am y materion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth, camau a gymerwyd gan y darparwr i gydymffurfio, yr adroddiad arolygu diweddaraf

Atodiad. 4. Yr angen i ystyried cyfweiliad

Bydd angen cyfweild ag ymgeisydd/Unigolyn Cyfrifol o dan yr amgylchiadau canlynol

- Ar gyfer pob cais cyntaf newydd,
- Ar gyfer pob cais amrywio i ychwanegu Unigolyn Cyfrifol newydd ar gyfer gwasanaeth(au) presennol, lle nad yw'r Unigolyn Cyfrifol yn hysbys i ni,
- Ar gyfer pob cais amrywio i ychwanegu gwasanaeth ar gyfer darparwyr gwasanaethau presennol lle mae pryderon ynglŷn â chydymffurfiaeth neu drosolwg mewn perthynas â'r gwasanaeth(au) ar hyn o bryd,
- Ym mhob achos lle mae'r Unigolyn Cyfrifol newydd a enwebwyd yn swyddog tebyg yn y sefydliad,
- Ym mhob achos lle mae unrhyw bryderon o ran gallu Unigolyn Cyfrifol i gyflawni'r rôl mewn perthynas â nifer cynyddol o wasanaethau,
- Mewn unrhyw achos lle mae gwiriad yr Unigolyn Cyfrifol a enwebwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol nad yw wedi cael ei drafod ag AGC o'r blaen.

Atodiad 5. Rhestrau Gwirio Cyn Arolygiad Rhithwir

Rhestr Wirio Cyn Arolygiad Rhithwir



Cwblhewch y canlynol drwy roi atebion mor llawn â phosibl:

Rhestrwch yr ardaloedd ar eich safle y byddwch yn eu defnyddio i ddarparu gofal	
YSTAFELLOEDD – CYFFREDINOL	
Faint o synwryddion mwg sydd ar eich safle a ble y maent wedi'u lleoli?	
A oes gennych yr eitemau canlynol fel sy'n ofynnol ar gyfer diogelwch tân: <ul style="list-style-type: none">• Diffoddwyr tân• Hysbysiadau gadael os bydd tân• Allanfeydd tân Ar ba ddyddiad yr archwiliwyd y cyfarpar hwn ddiwethaf?	
Pa gyfarpar gwresogi sydd gennych (rheiddiaduron/lle tân/llosgwr coed tân ac ati), a sut rydych yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel?	
Sut mae cordiau'r llenni wedi'u clymu allan o gyrraedd y plant?	
A oes gennych unrhyw baenau gwydr sengl ar lefel taldra'r plant (drysau mewnol/byrddau/cypyrddau)? Os felly, a ydych wedi rhoi gorchudd diogelwch arnynt?	
Sut rydych wedi gosod eich teledu'n sownd er mwyn sicrhau na allai ddisgyn?	
Sut rydych yn sicrhau na all y plant fynd i'r gegin ar eu pen eu hunain?	
Sut rydych wedi sicrhau bod yr holl geblau trydan allan o gyrraedd y plant?	
Ble mae'r plant yn cysgu? Sut rydych yn monitro'r plant pan fyddant yn cysgu?	
Sut rydych yn sicrhau bod y plant yn ddiogel rhag disgyn o'r ffenestri yn yr ystafelloedd i fyny'r grisiau?	
GRISIAU	
Sut mae'r carped wedi'i osod yn sownd?	
Sut rydych yn sicrhau bod y grisiau'n daclus?	

Sut rydych yn atal y plant rhag mynd i fyny ac i lawr y grisiau ar eu pen eu hunain?	
A yw'r gofod rhwng y gwerthydau yn ddigon cul fel na allai plentyn roi ei ben/corff rhyngddynt?	
YSTAFELL YMOLCHI	
Sut rydych yn cynnal tymheredd y dŵr er mwyn sicrhau nad yw'n mynd yn rhy boeth?	
Ble rydych yn storio deunyddiau glanhau'r ystafell ymolchi, ac eitemau megis raseli?	
Sut rydych yn sicrhau bod y plant yn cael preifatrwydd, ond na allant gloi eu hunain yn yr ystafell ymolchi?	
Sut rydych yn hyrwyddo prosesau rheoli heintiau yn yr ystafell ymolchi? (tywelion unigol neu dywelion papur/sebon hylif ac ati)	
NEWID CEWYNNAU	
Ble y byddwch yn newid cewynnau'r plant?	
Sut y byddwch yn newid cewynnau'r plant – ar y llawr neu ar uned newid cewynnau? Os byddwch yn defnyddio uned newid cewynnau, a oes ganddi strap clymu neu ymyl uchel er mwyn sicrhau diogelwch y plant?	
Pa fesurau y byddwch yn eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau nad oes unrhyw achosion o groesheintio?	
CEGIN	
Sut rydych yn sicrhau bod yr arwyneb gweithio yn rhydd rhag peryglon (cyllyll/tegell neu wifrau sy'n hongian uwchben allan o gyrraedd y plant ac ati)	
Sut rydych yn sicrhau na all y plant gael mynediad at gypyrddau storio (deunyddiau glanhau/gwydrau/bagiau plastig/matsis/cyllyll ac ati)	
A oes gennych flwch cymorth cyntaf? Beth yw'r dyddiad sydd ar eich tystysgrif cymorth cyntaf?	

Faint o aelodau o'r staff sydd â thystysgrif cymorth cyntaf cyfredol?	
A oes gennych flanced dân? A ydych wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio?	
Sut rydych yn sicrhau na all y plant fynd i'r gegin ar eu pen eu hunain?	
Os oes gennych ystafell amlbwrpas/ystafell golchi dillad, sut rydych yn sicrhau na all y plant gael mynediad ati ar eu pen eu hunain?	
CYFLEUSTERAU'R STAFF	
Sut rydych yn sicrhau bod gan y staff ardal ar wahân i gael egwyl a storio eu heiddo?	
Pa doiledau sydd ar gael i'r staff?	
Sut y gall rhieni siarad â'r staff yn breifat os bydd angen?	
DRYSAU	
Sut rydych yn sicrhau bod y drysau ffrynt, drysau cefn, drysau patio neu unrhyw ddrws allanol arall yn cael eu cadw ar glo er mwyn sicrhau na all y plant eu hagar?	
Ble mae'r allweddi'n cael eu storio?	
Os oes grisiau i fyny i'r drysau hyn/i lawr o'r drysau hyn, sut mae'r plant yn cael eu cadw'n ddiogel?	
GARDD/ARDAL AWYR AGORED	
Disgrifiwch yn fras y math(au) o arwyneb, e.e. lawnt, palmantog, tarmac ac ati.	
Sut rydych yn sicrhau bod yr ardd/ardal awyr agored yn cael ei chadw'n gaeedig ac yn ddiogel, a bod mynediad cyfyngedig iddi?	
Os oes grisiau neu wahanol lefelau, sut rydych yn cadw'r plant yn ddiogel?	
A oes gennych anifail anwes? Os felly, sut rydych yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel? A oes ardal ar wahân dan do/yn yr awyr agored ar gyfer yr anifail anwes hwn?	
Sut rydych yn sicrhau diogelwch y plant os oes gennych unrhyw rai o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • piben ddŵr • silindrau nwy LPG • barbeciw 	

<ul style="list-style-type: none"> • biniau sbwriel • draeniau agored 	
<p>A oes gennych nodwedd dŵr/pwll dŵr neu unrhyw ddŵr sy'n llifo yn eich gardd? Os felly, sut rydych yn sicrhau diogelwch y plant?</p>	
<p>A ydych wedi cadarnhau nad yw pob planhigyn yn wenwynig/perylus i'r plant (gan gynnwys danadl poethion, nodd sy'n achosi pothelli, mieri a phlanhigion drain eraill, planhigion ag aeron neu godennau ac ati)</p>	
<p>A oes gennych dŷ gwydr? Sut rydych yn sicrhau ei fod yn ddiogel ar gyfer y plant?</p>	
<p>A oes gennych sied/garej? Sut rydych yn sicrhau ei bod yn ddiogel ar gyfer y plant?</p>	

Ychwanegwch enghreifftiau o'r Teganau/Gweithgareddau/Cyfarpar sydd gennych i ategu'r mathau canlynol o ddysgu:

<p>Emosiynol (e.e. chwarae rôl, llyfrau, pypedau)</p>	
<p>Corfforol (e.e. rhedeg, dawnsio, ymweld â'r parc)</p>	
<p>Cymdeithasol (e.e. cymysgu, gemau grŵp, siarad)</p>	
<p>Deallusol (e.e. darllen, mathemateg)</p>	
<p>Iaith (e.e. siarad, adrodd stori, canu)</p>	
<p>Creadigol (e.e. celf a chrefft, gwisgo i fyny)</p>	

CYFARPAR DAN DO AC YN YR AWYR AGORED

<p>Ble mae'r plant yn cael eu prydau bwyd? Beth yw'r trefniadau yn ystod amseroedd bwyd?</p>	
<p>A oes harnais pum pwynt ar bob cadair uchel/cadair isel?</p>	

Seddi car/clustogau hybu sy'n addas ar gyfer oedran y plant?	
A oes gennych ddigon o gadeiriau gwthio/pramiau?	
Sut a ble y mae'r plant yn cysgu – mewn cotiau/ar fatiau cysgu ac ati? Sut y byddwch yn monitro'r plant sy'n cysgu?	
A oes gennych unrhyw rai o'r canlynol ac, os felly, sut y byddwch yn sicrhau diogelwch y plant: <ul style="list-style-type: none"> • Siglen • Llithren • Pwll padlo • Hambwrdd dŵr • Hambwrdd/pwll tywod • Trampolîn • Ffrâm ddringo • Cegin fwd 	

Rhestr Wirio Cyn Arolygiad Rhithwir



Cwblhewch y canlynol drwy roi atebion mor llawn â phosibl:

Rhestrwch yr ardaloedd yn eich safle y byddwch yn eu defnyddio i ddarparu gofal	
YSTAFELLOEDD – CYFFREDINOL	
Faint o synwryddion mwg sydd yn eich safle a ble maen nhw?	
Pa gyfarpar gwresogi sydd gennych (rheiddiaduron/lle tân/llosgwr coed ac ati), a sut rydych yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel?	
Allanfeydd tân	
A oes gennych unrhyw baenau gwydr sengl ar lefel taldra'r plant (drysau mewnol/byrddau/cypyrddau)? Pa gyfarpar gwresogi sydd gennych (rheiddiaduron/lle tân/llosgwr coed tân ac ati), a sut rydych yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel?	
Sut mae cordiau'r llenni wedi'u clymu allan o gyrraedd y plant?	
A oes gennych unrhyw baenau gwydr sengl ar lefel taldra'r plant (drysau mewnol/byrddau/cypyrddau)?	
Sut rydych wedi sicrhau bod yr holl geblau trydan allan o gyrraedd y plant?	
Ble mae'r plant yn cysgu? Sut rydych yn sicrhau na all y plant fynd i'r gegin ar eu pen eu hunain?	
Sut rydych wedi sicrhau bod yr holl geblau trydan allan o gyrraedd y plant?	
GRISIAU	
Sut mae'r carped wedi'i gosod yn sownd?	
Sut rydych yn sicrhau bod y grisiau'n daclus?	
Sut rydych yn atal y plant rhag mynd i fyny ac i lawr y grisiau ar eu pen eu hunain?	
A yw'r gofod rhwng y gwerthydau yn ddigon cul fel na allai plentyn roi ei ben/corff rhyngddynt?	

YSTAFELL YMOLCHI	
Sut rydych yn cynnal tymheredd y dŵr er mwyn sicrhau nad yw'n mynd yn rhy boeth?	
Ble rydych yn storio deunyddiau glanhau'r ystafell ymolchi, ac eitemau megis raseli?	
Sut rydych yn sicrhau bod y plant yn cael preifatrwydd, ond na allant gloi eu hunain yn yr ystafell ymolchi?	
Sut rydych yn hyrwyddo prosesau rheoli heintiau yn yr ystafell ymolchi? (tywelion unigol neu dywelion papur/sebon hylif ac ati)	
NEWID CEWYNNAU	
Ble y byddwch yn newid cewynnau'r plant?	
Sut y byddwch yn newid cewynnau'r plant – ar y llawr neu ar uned newid cewynnau? Os byddwch yn defnyddio uned newid cewynnau, a oes ganddi strap clymu neu ymyl uchel er mwyn sicrhau diogelwch y plant?	
Pa gamau y byddwch yn eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod dim achosion o groesheintio?	
CEGIN	
Sut rydych yn sicrhau bod yr arwyneb gweithi yn rhydd rhag peryglon (cyllyll/tegell neu wifrau sy'n hongian uwchben allan o gyrraedd plant ac ati)	
Sut rydych yn sicrhau na all y plant gael mynediad at gypyrddau storio (deunyddiau glanhau/gwydr/bagiau plastig/matsis/cyllyll ac ati)	
A oes gennych flwch cymorth cyntaf? Beth yw'r dyddiad sydd ar eich tystysgrif cymorth cyntaf?	
A oes gennych flanced dân? A ydych wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio?	
Sut rydych yn sicrhau na all y plant fynd i'r gegin ar eu pen eu hunain?	
Os oes gennych ystafell amlbwrpas/ystafell golchi dillad, sut	

rydych yn sicrhau na all y plant gael mynediad ati ar eu pen eu hunain?	
DRYSAU	
Os oes gennych ystafell amlbwrpas/ystafell golchi dillad, sut rydych yn sicrhau na all y plant gael mynediad ati ar eu pen eu hunain?	
Ble mae'r allweddî'n cael eu storio?	
CYFLEUSTERAU'R STAFF	
GARDD/ARDAL AWYR AGORED	
Sut y gall rhieni siarad â'r staff yn breifat os bydd angen?	
Sut rydych yn sicrhau bod yr ardd/ardal awyr agored yn cael ei chadw'n gaeedig ac yn ddiogel, a bod mynediad cyfyngedig iddi?	
DRYSAU	
A oes gennych anifail anwes? Os felly, sut rydych yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel? Ble mae'r allweddî'n cael eu storio?	
Os oes grisiau i fyny i'r drysau hyn/i lawr o'r drysau hyn, sut mae'r plant yn cael eu cadw'n ddiogel? <ul style="list-style-type: none"> • piben ddŵr • Silindr Nwy LPG • Barbeciw • biniau sbwriel • draeniau agored 	
A oes gennych nodwedd dŵr/pwll dŵr neu unrhyw ddŵr sy'n llifo yn eich gardd? Os felly, sut rydych am sicrhau diogelwch y plant?	
A ydych wedi cadarnhau nad yw pob planhigyn yn wenwynig/perylus i'r plant (gan gynnwys danadl poethion, nodd sy'n achosi pothelli, mieri a phlanhigion drain eraill, planhigion ag aeron neu godennau ac ati)	
A oes gennych dŷ gwydr? Sut rydych yn sicrhau ei fod yn ddiogel ar gyfer y plant?	
A oes gennych sied/garej? Sut rydych yn sicrhau ei bod yn ddiogel ar gyfer y plant?	

Ychwanegwch enghreifftiau o'r Teganau/Gweithgareddau/Cyfarpar sydd gennych i ategu'r mathau canlynol o ddysgu:

Emosiynol (e.e. chwarae rôl, llyfrau, pypedau)	
Corfforol (e.e. rhedeg, dawnsio, ymweld â'r parc)	
A oes gennych sied/garej? (e.e. cymysgu, gemau grŵp, siarad)	
Deallusol (e.e. darllen, mathemateg)	
Iaith (e.e. siarad, adrodd stori, canu)	
Creadigol (e.e. celf a chrefft, gwisgo i fyny)	

CYFARPAR DAN DO AC YN YR AWYR AGORED

Ble mae'r plant yn cael eu prydau bwyd? Beth yw'r trefniadau yn ystod amseroedd bwyd?	
A oes harnais pum pwynt ar bob cadair uchel/cadair isel?	
A oes gennych seddi car/clustogau hybu sy'n addas ar gyfer oedran y plant?	
A oes gennych ddigon o gadeiriau gwthio/pramiau?	
Sut a ble y mae'r plant yn cysgu – mewn cotiau/ar fatiau cysgu ac ati? Sut y byddwch yn monitro'r plant sy'n cysgu?	
A oes gennych chi unrhyw rai o'r canlynol ac, os felly, sut y byddwch yn sicrhau diogelwch y plant: <ul style="list-style-type: none"> • Siglen • Llithren • Pwl padlo • Hambwrdd dŵr • Hambwrdd/pwll tywod • Trampolîn • Ffrâm ddringo • Cegin fwd 	

Rhestr Wirio Cyn

Arolygiad Rhithwir



Rhestrwch yr ardaloedd ar eich safle y byddwch yn eu defnyddio i ddarparu gofal

YSTAFELLOEDD – CYFFREDINOL	
Faint o synwryddion mwg sydd ar eich safle a ble y maent wedi'u lleoli?	
Disgrifiwch y mesurau diogelwch sydd ar waith i atal mynediad heb awdurdod i'r safle?	
Allanfeydd tân	
ARDALOEDD CYMUNEDOL	
Disgrifiwch sut rydych yn darparu seddi, ardaloedd hamdden/ addysgol ac ardaloedd bwyta addas a digonol i ddefnyddwyr y gwasanaeth.	
Disgrifiwch sut mae cynllun a strwythur yr adeilad yn galluogi'r bobl i symud o gwmpas yn ddiogel?	
Pa gyfleusterau sydd ar gael er mwyn galluogi defnyddwyr y gwasanaeth i gwrdd ag ymwelwyr mewn mannau i ffwrdd o'u hystafelloedd preifat?	
CYFLEUSTERAU STORIO	
Sut rydych yn sicrhau bod y grisiau'n daclus?	
Pa gyfleusterau sydd ar gael ar gyfer storio gwastraff clinigol?	
Pa gyfleusterau sydd gennych ar gyfer storio cofnodion yn ddiogel?	
MEDDYGINIAETH	

Ble mae'r feddyginiaeth yn cael ei storio a sut mae'r ardal hon yn wedi'i diogelu rhag mynediad heb awdurdod?	
Sut rydych yn hyrwyddo prosesau rheoli heintiau yn yr ystafell ymolchi?	
Disgrifiwch sut mae'r tymheredd yn cael ei gynnal lle y cedwir meddyginiaethau	
Disgrifiwch unrhyw gyfleusterau sydd gennych sy'n galluogi'r unigolion i gymryd eu meddyginiaethau eu hunain	
CYFLEUSTERAU'R STAFF	
Ble rydych yn cynnal sesiynau goruchwylio'r staff?	
Pa gyfleusterau sydd ar gael i'r staff yn ystod oriau gwaith ac os bydd angen iddynt aros dros nos?	
CEGIN	
Pa gyfleusterau a chyfarpar sydd ar gael?	
Pa fath o lorïau sydd wedi cael eu gosod?	
Sut rydych yn sicrhau na all y plant fynd i'r gegin ar eu pen eu hunain?	
GOLCHDY	
Disgrifiwch y cyfleusterau a'r cyfarpar sydd ar gael	
Pa gyfarpar sydd ar gael i reoli heintiau yn y golchdy?	
DRYSAU	
Sawl ystafell wely sydd gennych? Sawl ystafell wely sy'n ystafelloedd a rennir? Sawl ystafell wely sydd â chyfleusterau en-suite?	

Pa ddodrefn a chyfarpar rydych yn eu darparu i'r bobl sy'n symud i mewn i'r cartref?	
Sut mae cynllun yr ystafelloedd gwely a'r cyfleusterau sydd ynddynt yn diwallu anghenion unigol?	
Disgrifiwch y math o gloeon sydd wedi'u gosod ar y drysau a'r ffenestri yn yr ystafelloedd gwely	
Sut y gall unigolion reoli'r systemau gwresogi ac awyru yn eu hystafelloedd gwely?	
silindrau nwy LPG	
Faint o'r canlynol sydd gennych yn yr eiddo, a ble maen nhw (ac eithrio'r cyfleusterau en-suite a nodir uchod): <ul style="list-style-type: none"> • Toiledau • A oes gennych nodwedd dŵr/pwll dŵr neu unrhyw ddŵr sy'n llifo yn eich gardd? • Os felly, sut rydych yn sicrhau diogelwch y plant? 	
Sut rydych yn sicrhau y gellir defnyddio'r rhain yn hawdd ac maen ffordd ddiogel?	
Sut rydych wedi sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cynnwys cyfarpar addas i ddiwallu anghenion unigol?	
LIFFT	
Faint o lifftiau sydd gennych, pa fath o lifftiau ydynt a ble maen nhw?	
DIOGELWCH TÂN	
Disgrifiwch unrhyw eitemau o gyfarpar diogelwch tân sydd gennych a ble maen nhw	
CYMORTH BRYD	
Disgrifiwch unrhyw eitemau o gyfarpar sydd gennych a ble maen nhw	